# PWYLLGOR ARDAL ARFON, 12.12.12

## 5. AGENDA WLEDIG

a) Cyflwynwyd - adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Cynghorydd Dyfrig Jones, yn amlinellu cefndir y gwaith a wnaed hyd yma gan y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r balans rhwng gwasanaethau gwlad a thref yng Ngwynedd.

b) Eglurodd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi datgan yr awydd i astudio'r mater yma. Fodd bynnag, gwelwyd bod 'balans rhwng gwasanaethau gwlad a thref' yn bwnc cwbl pen agored, ac yn sgil hyn rhoddwyd ystyriaeth i faterion penodol oedd yn hawlio sylw.

Yn ogystal, ystyriwyd y mater gan yr Aelod Cabinet – Economi a gwnaed trefniadau iddo gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

c) Cyfeiriwyd at adroddiad 'Arolwg Ynni yn y Gymuned', a ddarparwyd ar gyfer Ynni Llŷn gan Gritten Management. Trefnwyd i'r Pwyllgor Craffu gael cyflwyniad ar gynnwys yr adroddiad, ac ystyriwyd y byddai'n cynnig cymorth i ddeall un o'r heriau sy'n bodoli yn un o ardaloedd Gwynedd.

Nododd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu bod nifer fawr o elfennau'n perthyn i'r maes ac mai bwriad y Pwyllgor Craffu Corfforaethol oedd cael barn aelodau'r Pwyllgorau Ardal ynglŷn â pha fath o faes fyddai'n addas i ymchwilio iddo'n drylwyr.

ch) Mynegwyd barn gan yr aelodau a phwysleisiwyd bod angen diffiniad o'r rhaniad rhwng gwlad a thref o ran dylanwadu ar sut y dylid craffu'r gwaith.

d) Gwnaed awgrymiadau pellach parthed materion eraill allai fod yn rhan o ymchwiliad, a thynnwyd sylw penodol at y canlynol:-

- tlodi gwledig a dulliau o ymdrin â hyn;
- costau ynni a'r modd mae incwm isel yn effeithio ar hyn yn arbennig o safbwynt yr henoed;
- costau teithio a'r modd mae hyn yn effeithio ar drigolion mannau diarffordd;
- dirywiad yn yr iaith Gymraeg a'r cyswllt rhwng hyn a diboblogi mewn rhai ardaloedd;
- y galw am ynni a'r amrywiol ddarpariaethau sydd ar gael.

dd) Nodwyd y bydd band eang o raddfa uchel yn weithredol yng Ngwynedd yn y dyfodol agos a bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol gan y byddai'n ei gwneud yn bosib i ychwaneg o fusnesau gael eu sefydlu mewn unrhyw ran o'r Sir.

**PENDERFYNWYD argymell y dylid rhoi blaenoriaeth i'r angen i gael diffiniad o'r rhaniad rhwng gwlad a thref pe byddai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn penderfynu craffu'r 'balans rhwng gwasanaethau gwledig a threfol.'**